Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Llais y Cleifion Bwletin Newyddion

## Digwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer Gorffennaf 2019

- Diwrnod Aneurin Bevan Tredegar – 7 Gorffennaf

- Parti yn y Parc Pontypwl – 13 Gorffennaf

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Sara Newnes PPE, Swyddog Ymgysylltu â Chleifion a'r Cyhoedd/Monitro a Chraffu: 01633 838516.

Os hoffech gael ein gwasanaeth Cymraeg ar ein stondin, rhowch wybod i ni 7 diwrnod ymlaen llaw drwy e-bostio enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

Wythnos addysg oedolion Mehefin 2019

## Ffarwelio

Yn anffodus, bydd Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ffarwelio â Mrs Liz Warren, ein Dirprwy Brif Swyddog, ddiwedd Mehefin 2019. Hoffem ddiolch i Liz am ei holl waith caled dros y blynyddoedd diwethaf a dymuno ymddeoliad hapus iddi.

## Prosiect Digartrefedd

Ar ddiwedd Mehefin 2019, bydd aelodau'r CIC yn dechrau mynychu sesiynau galw heibio yn elusen The Wallich, yn elusen Edengate ac ym Myddin yr Iachawdwriaeth. Y gobaith yw ymgysylltu â'r bobl sy'n ddigartref fel ein bod ni'n gallu deall unrhyw gyfyngiadau maent yn eu profi wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn un parhaus, a fydd yn ein galluogi i ddod ag unrhyw rhwystrau at sylw'r Bwrdd Iechyd a gwneud newidiadau cadarnhaol.

# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018/2019 ddydd Mercher 3 Ebrill 2019 yng Ngwesty'r Parkway, Cwmbrân.

Cadeirydd ac Is
Gadeirydd newydd Cyngor Iechyd Cymuned
Aneurin Bevan yw Mrs
Wendy Thomas a'r Cynghorydd
Alan Davies.

Cyflwynwyd Gwobr Tugday i Mrs Anne Thomas a chyflwynwyd Gwobr Cathy O'Sullivan i Mr Byron Grubb, dau gyn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan.

# Eiriolaeth

Ers Ebrill 2019 hyd heddiw, mae ein Gwasanaeth Eiriolaeth wedi derbyn 56 o bryderon newydd. Mae hyn yn codi'n llwyth achosion cyfredol i 141. Isod nodir y 5 prif faes mewn gofal iechyd sy'n amlwg mewn cwynion:

- Gofal Sylfaenol – Practis Meddygol Teulu
- Obstetreg a Gynaecoleg
- Trawma ac Orthopedeg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- Gofal yr Henoed

# Aelodaeth ar gyfer Penodiad Cyhoeddus

Agorwyd aelodaeth ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus ar 5 Mehefin 2019. Gweler y ddolen atodedig.
https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-e975a8b73cf0/candidate/so/pm/1/pl/8/opp/5937-Members-of-the-Community-Health-Councils-CHCs/en-GB

# Staff Newydd

Croesawodd CIC Aneurin Bevan aelod newydd o staff i'r Tîm ym mis Mai 2019, sef Mrs Janet Saunders, sy'n ymuno â ni fel Swyddog Cymorth Eiriolaeth.

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
6-8 William Brown Close
Tŷ Raglan
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516
E-bost: enquiries.aneurinbevanchc@waleschc.org.uk

**Fformatau hygyrch**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan